Ysgol Penrhyn-coch

Gyda'r Nadolig ar y trothwy mae'r plant i gyd yn edrych ymlaen i ymweliad Sion Corn. Yn ystod yr wythnosau diwethaf yma, er hynny, buont yn brysur iawn gyda gwahanol weithgareddau. Gwnaethant i gyd waith da yn y rhedeg traws gwlad a fu ym Mhlas-crug a rhaid llongyfarch Bethan Evans ar ddod yn gyntaf yn y râs i rai dan 9 oed. Yr oedd dros gant o ferched yn cymryd rhan yn y râs. Da iawn Bethan! Llongyfarchion i Helen Sutherland, hefyd ar ei gwaith da gyda'r ffidil. Pasiodd yr arholiad yn Aberystwyth beth amser yn ôl gyda marciau uchel. Llawenhawn bob amser yn llwyddiant ein plant.

Daeth Mr G. Shackell atom ddwy waith yn ystod y mis. Y tro cyntaf bu'n siarad a'r plant ieuengaf ac yn dangos lluniau o Seland Newydd iddynt. Yr ail dro cafodd y plant hyn gyfle i sgwrsio ag ef a gweld Seland Newydd trwy gyfrwng lluniau. Y mae ei ferch Miranda gennym yma'n yr ysgol a bydd yma hyd fis Ebrill pan fydd y teulu bach yn dychwelyd dros y môr.

Ar yr 28ain o Dachwedd cawson Y cyfle i groesawu perthnasau a ffrindiau Mrs Elizabeth Ann Rowlands, y Fodwen i'n plith. Y diwrnod hwnnw roedd Mrs Rowlands yn dathlu ei phenblwydd yn 103 oed a phlannwyd coeden ym muarth yr ysgol i ddathlu'r amgylchiad. Croesawyd y cyfeillion i'r ysgol gan y prifathro a llongyfarchodd Mrs Rowlands ar gyrraedd oedran mor arbennig. Dymunodd yn dda idd a diolchodd i'w pherthnasau ac yn arbennig i Mr a Mrs Owen Edwards am ofalu mor dyner amdani. Ar ran Cymdeithas Rieni Athrawon yr Ysgol cafwyd gair gan Mr Rogerson a siaradwyd ymhellach gan y Cynghorydd Gwynfor Jones. Ar ran y teulu diolchodd Mrs Donohue i bawb am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da i Mrs Rowlands. Plannwyd y goeden gan Sharon a Janice - dwy or-wyres i Mrs Rowlands. Yr oedd y goeden wedi ei rhoddi gan gwmni Pitney Bowes a Harlow a chyflwynodd y cwmni ddyddiadur hanner can mlynedd i'r ysgol yn ogystal. Cyflwynwyd y rhaw a'r fforch fechan a ddefnyddiwyd yn y seremoni i Mrs Rowlands yn ddiweddarach yn y dydd pan aeth y plant i lawr i'r Fodwen i ganu eu dymuniadau da i'r wraig addfwyn hon.